**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Gall ysgolion Caerffili benderfynu defnyddio un neu ragor o'r prosesyddion data allanol isod i weithredu ar eu rhan a chynorthwyo eu swyddogaeth statudol. Mae Erthygl 29 yn nodi y dylai Prosesydd Data brosesu data personol yn unol â chyfarwyddiadau'r Rheolydd Data (h.y. yr ysgol) yn unig, oni bai ei bod yn ofynnol iddo wneud fel arall yn ôl y gyfraith.

## Capita SIMS (rheoli data)

**Data myfyrwyr a brosesir:**
**enw'r disgybl a manylion cyswllt, enw'r rhiant a manylion cyswllt, manylion cyswllt mewn argyfwng, presenoldeb disgyblion, unrhyw anghenion deietegol neu feddygol, a gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig**

Mae Capita SIMS yn system gwybodaeth rheoli a ddefnyddir i storio gwybodaeth am ddisgyblion a gesglir yn uniongyrchol oddi wrth rieni/gofalyddion pan fydd disgybl yn ymuno â'r ysgol. Mae SIMS yn cael ei chynnal gan ganolfan data Microsoft Azure yn y DU ac mae'r data wedi'i amgryptio wrth gael ei gadw mewn storfeydd cwmwl ac wrth iddo deithio ar draws y rhyngrwyd neu o fewn rhwydweithiau.
https://www.capita-sims.co.uk/gdpr |
https://www.capita-sims.co.uk/privacy-notice

## Capita SIMS MyConcern (diogelu)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw cyfreithiol a dewis disgyblion, dyddiad geni, rhywedd, dosbarth, ysgol, manylion am y mater diogelu**

Mae Capita SIMS MyConcern yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol i gofnodi pryderon diogelu. Mewnbynnir gwybodaeth ar blatfform digidol diogel ac anfonir e-bost hysbysu at yr unigolyn perthnasol pan fydd yr achos yn cael ei ddiweddaru. Nid yw'r e-bost hwn yn cynnwys unrhyw fanylion am y digwyddiad na'r unigolion dan sylw ac mae'n ofynnol i'r gweithiwr proffesiynol sy'n derbyn yr e-bost fewngofnodi i adolygu'r data.
https://www.capita-sims.co.uk/gdpr |
https://www.capita-sims.co.uk/privacy-notice

## Capita GDPRiS (rheoli data)

**Data a brosesir: enw staff, enw'r achwynydd, manylion cyswllt, a chrynodeb o fynediad diawdurdod at ddata**

Datrysiad cwmwl i fonitro diogelwch data yw Capita GDPRiS a ddefnyddir i gofnodi a rheoli mynediad diawdurdod at ddata a adroddwyd, archwilio cynnydd, a mapio data a gedwir gan yr ysgol. Mae'r system yn gynnyrch gan Capita SIMS, sy'n cael ei lletya mewn cronfa ddata Microsoft Azure yn y Deyrnas Unedig ac mae data'n cael eu hamgryptio wrth orffwys mewn system storio cwmwl ac wrth iddo deithio ar draws y rhyngrwyd neu o fewn rhwydweithiau.
https://www.capita-sims.co.uk/gdpr |
https://www.capita-sims.co.uk/privacy-notice



## Teledu cylch cyfyng (monitro cyhoeddus)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir teledu cylch cyfyng y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol i sicrhau diogelwch yr holl staff, y disgyblion ac ymwelwyr. Caiff teledu cylch cyfyng yr ysgol ei fonitro gan CBSC a chedwir data yn Nhir-y-Berth.
https://www.caerffili.gov.uk/hysbysiadau_preifatrwydd

## Halo Support (mewngofnodi ymwelwyr)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Halo Support yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda phrosesu data personol. Mae'r system yn ei lle ar gyfer mewngofnodi ac allgofnodi staff, ymwelwyr a disgyblion. Caiff data ei storio ar yr iPad yn yr ysgol ac ni chaiff ei drosglwyddo i Halo Support. Bydd y system yn darparu adroddiadau am bresenoldeb, amser i mewn ac amser allan, a bydd yn cael ei e-bostio drwy gyfrif ysgolion @caerphilly.gov.uk.
https://www.halo.support/gdpr/

## InVentry Limited (system mewngofnodi ymwelwyr)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir InVentry i gynorthwyo gyda phrosesu data personol. Mae'r system yn ei lle ar gyfer mewngofnodi ac allgofnodi ar gyfer staff, ymwelwyr a disgyblion. Caiff data ei storio ar yr iPad yn yr ysgol ac mae'n eistedd ar ein rhwydwaith. Mae InVentry yn prosesu data pan fydd yr ysgol yn defnyddio'r ddesg gymorth, gwneud bathodynnau adnabod, ac yn defnyddio gwasanaethau InVentry Anywhere. Mae data'n cael ei storio ar weinydd cwmwl diogel sy'n eiddo i'r cwmni ac sy'n cael ei waredu'n gyson o wybodaeth.
https://inventry.co.uk/gdpr-policies/

## Thrive Online (cymorth datblygiad emosiynol/cymdeithasol)

**Data myfyrwyr a brosesir: Enwau, RhUD, dosbarth, a dyddiad geni**

Mae Thrive Online yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion gydag adeiladu ar gynnydd a datblygiad yn y cwricwlwm a phrofiadau bywyd bob dydd. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir i Thrive yn cael ei chadw o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. Dim ond rhai disgyblion sy'n gysylltiedig â'r ymyriad hwn.
https://www.thriveapproach.com/privacy-policy/privacy-policy-2/

## INCERTS y Sefydliad Asesu (cynnydd disgyblion)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae INCERTS y Sefydliad Asesu yn cefnogi'r ysgol i olrhain cynnydd disgyblion ac mae'n offeryn asesu ar-lein. Mae'n ein helpu i olrhain yr hyn y mae eich plentyn yn ei wybod, yn ei ddeall, ac yn gallu ei wneud er mwyn i ni allu helpu i gynllunio'r camau nesaf. Mae INCERTS hefyd yn cefnogi adrodd ar gynnydd i rieni a gofalyddion.
http://www.assessmentfoundation.org/privacy.html

## GL Assessment (asesu disgyblion)

**Data myfyrwyr a brosesir: enwau disgyblion, dosbarth, dyddiadau geni**

Mae Asesiad GL yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol ar gyfer asesiadau Saesneg, Darllen a Mathemateg. Rydym yn rhannu gwybodaeth er mwyn i asesiadau gael eu safoni.
Caiff cyfrineiriau eu newid bob 6 mis i ddiogelu defnyddwyr. Mae unrhyw fynediad at y data gan y cwmni yn cael ei dracio a chedwir cofnod archwilio manwl ynghyd â'r rhesymau dros fynediad.
https://www.gl-assessment.co.uk/support/privacy-policy/ |
https://www.gl-assessment.co.uk/media/286590/data-policy-apr-2018.pdf

## Evolve (asesiadau risg)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Evolve yn cynorthwyo'r ysgol i asesu risgiau teithiau ysgol ar gyfer staff, ymwelwyr a disgyblion. Caiff data ei storio mewn cronfeydd data yn y Deyrnas Unedig ac mae pob gweinydd yn monitro bygythiadau yn rhagweithiol i ganfod unrhyw ymgais i ymyrryd.
https://evolve.edufocus.co.uk/evco10/privacy.asp |
http://edufocus.co.uk/Pages/Evolve/gdpr.asp

## Cunninghams (arlwyo di-arian)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw'r disgybl, dosbarth, dyddiad geni, data biometrig (h.y. olion bysedd), alergeddau, cofnodion prydau o fwyd**

Mae Cunninghams yn darparu system arlwyo di-arian i gynorthwyo disgyblion wrth dalu am ginio ysgol. Mae'r system yn rheoli dulliau adnabod disgyblion o ran taliadau ar-lein ac yn cynhyrchu adroddiadau dyddiol, wythnosol neu fisol. Mae gan ysgolion fynediad at adroddiadau ar brydau o fwyd sy'n cael eu bwyta, cyfrifon gorddyledus, a gwastraff bwyd.
https://www.crbcunninghams.co.uk/mint-project/uploads/953895657.pdf
https://www.crbcunninghams.co.uk/mint-project/uploads/940428611.pdf

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (arlwyo di-arian)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw'r disgybl, dosbarth, dyddiad geni, data biometrig (h.y. olion bysedd), alergeddau, cofnodion prydau o fwyd**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu system arlwyo di-arian i gynorthwyo disgyblion wrth dalu am ginio ysgol. Mae'r system yn rheoli dulliau adnabod disgyblion o ran taliadau ar-lein ac yn cynhyrchu adroddiadau dyddiol, wythnosol neu fisol. Mae gan ysgolion fynediad at adroddiadau ar brydau o fwyd sy'n cael eu bwyta, cyfrifon gorddyledus, a gwastraff bwyd. Defnyddir is-brosesydd (Uniware) i ddarparu'r gwasanaeth.
www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-dinners-and-breakfast-clubs/Cashless-catering-in-secondary-schools?lang=cy-gb
www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Cashless-Catering-cy.aspx

## ParentPay (system dalu)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw'r disgybl, dosbarth, rhywedd, dyddiad geni, enw rhiant/gofalydd a manylion cyswllt, cyfeiriad IP, hanes talu a balansau, manylion cerdyn talu rhiant/gofalydd**

Mae ParentPay yn rhoi'r opsiwn i rieni/ofalyddion dalu'n ddiogel am ymweliadau addysgol, ciniawau ysgol, clybiau ar ôl ysgol, a gwisg ysgol. Mae'r cwmni'n defnyddio ystod o ddarparwyr gwasanaeth i helpu darparu ei wasanaethau (e.e. Amazon Web Services, Microsoft Azure, ac Experian). Efallai y bydd rhai o wasanaethau cymorth y cwmni yn defnyddio llwyfannau cwmwl sy'n gweithredu y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).
www.parentpay.com/parentpay-and-gdpr/
www.parentpay.com/privacy-policy/

## Siartiau dosbarth Edukey (rheoli ymddygiad)

**Data myfyrwyr a brosesir: RhUD, enw'r disgybl, rhyw, dyddiad geni, enw'r dosbarth, rhiant/gofalydd a manylion cyswllt.**

Mae siartiau dosbarth Edukey yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd myfyrwyr yn ystod y diwrnod ysgol gyda gwybodaeth amser go iawn am bresenoldeb mewn gwersi ac yn helpu'r ysgol i wobrwyo ymddygiad cadarnhaol gyda phwyntiau cyflawniad. Mae'r ap yn caniatáu i rieni/gofalyddion weld cynnydd eu plentyn. Mae'r holl ddata wedi'i amgryptio pan gaiff ei storio ar weinyddwyr Cwmwl Google yn y DU a phan fydd yn teithio ar draws y rhyngrwyd.
https://www.edukey.co.uk/privacy/ | https://www.edukey.co.uk/gdpr-compliance/ | https://www.edukey.co.uk/wp-content/uploads/GDPR_Summary.pdf

## Mapio darpariaeth Edukey (ymyrraeth)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Edukey yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r ysgol gyda chynlluniau dysgu a gweithredu'r dull Asesu – Cynllunio – Gwneud – Adolygu o god ymarfer SEND. Mae'r meddalwedd yn helpu i fapio ymyriadau ac olrhain yr unigolion sy'n gysylltiedig â phob achos. Mae'r cwmni fel mater o drefn yn cynnal profion bregusrwydd a threiddio ar eu llwyfannau ac yn cyfyngu ar fynediad at ddata personol.
https://www.edukey.co.uk/privacy/ | https://www.edukey.co.uk/gdpr-compliance/ | https://www.edukey.co.uk/wp-content/uploads/GDPR_Summary.pdf

## Go4Schools (olrhain cynnydd)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Go4Schools yn system ar-lein gyda sawl modiwl gwahanol i helpu mewn meysydd megis asesiadau tracio, gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol, cynhyrchu adroddiadau cynnydd, a gosod gwaith cartref. Mae'r cwmni'n gwneud data'n ddienw o fewn 4 wythnos ar ôl canslo'r tanysgrifiad ac yn cynnal adolygiadau mewnol o'u harferion casglu, storio a phrosesu data.
https://www.go4schools.com/PrivacyPolicy.aspx

## Eduspot Teachers2Parents (cyfathrebu cartref-ysgol)

**Data myfyrwyr a brosesir: enwau disgyblion, dosbarthiadau, enwau rhieni, a rhifau ffôn**

Mae Eduspot Teachers2Parents yn gysylltiedig â Capita SIMS trwy is-brosesydd ac yn echdynnu gwybodaeth. Defnyddir y system i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gofalyddion am unrhyw ddigwyddiadau ysgol, gweithgareddau neu os bydd ysgolion ar gau.
https://eduspot.co.uk/privacy-policy/

## Groupcall (cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir Groupcall i roi gwybodaeth berthnasol i rieni a gofalyddion am unrhyw ddigwyddiadau ysgol, gweithgareddau neu os bydd ysgolion ar gau. Mae'r cwmni'n gweithredu eu cynnyrch gan ddefnyddio llwyfan Microsoft Azure Europe ac mae data cwsmeriaid yn cael eu cadw o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Caiff negeseuon i staff a chysylltiadau eu hanfon heb weld rhifau ffôn derbynwyr na negeseuon e-bost.
https://www.groupcall.com/privacy#security_and_performance

## Schoop (cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol)

**Data rhieni a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir y system i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gofalyddion am unrhyw ddigwyddiadau ysgol, gweithgareddau neu os bydd ysgolion ar gau. Ni roddir gwybodaeth i'r cwmni gan y darperir cod ysgol pan fydd rhieni/gofalyddion yn lawrlwytho'r ap.
https://www.schoop.co.uk/privacy/ | https://www.schoop.co.uk/terms/

## Eduspot BehaviourWatch (presenoldeb ac ymddygiad)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir Eduspot BehaviourWatch i olrhain sut cynnydd myfyrwyr yn yr ysgol gyda dulliau monitro presenoldeb amser go iawn a chyfathrebu cynnydd gyda rhieni/gofalyddion. Mae’r system yn helpu'r ysgol i wobrwyo ymddygiad cadarnhaol.
https://eduspot.co.uk/privacy-policy/

## Microsoft Outlook (cyfathrebu)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Microsoft Outlook yn system e-bost sy'n cynorthwyo'r Uwch Dîm Rheoli gyda gweinyddu busnes a chyfathrebu gyda'r Awdurdod Lleol. Mae data'n cael ei storio mewn canolfannau data yn y DU ac mae Microsoft yn rheoli mynediad staff at ddata personol. Mae Microsoft yn sicrhau bod data wedi'i amgryptio pan gaiff ei storio yn eu canolfannau data a phan fydd yn teithio ar draws y rhyngrwyd.
https://www.microsoft.com/en-us/trust-center/privacy/gdpr-overview | http://www.microsoftvolumelicensing.com/DocumentSearch.aspx?Mode=3&DocumentTypeId=46

## Google for Education (cymorth dysgu/cyfathrebu)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Google for Education (h.y. Gmail, Google Drive, Docs/Sheets/Slides) yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol i greu aseiniadau, cyfathrebu gyda myfyrwyr trwy system e-bost ysgol gyfan ar gyfer athrawon, rhoi adborth ar waith myfyrwyr, ac olrhain cynnydd myfyrwyr o fewn dosbarthiadau. Caiff data ei amgryptio a chaiff gwybodaeth ei storio'n ddiogel o fewn canolfannau data'r DU. Mae Google yn monitro rheolaethau mynediad staff ac mae yna raglen monitro diogelwch llym ar waith i ganfod unrhyw fynediad heb ei awdurdodi i’r rhwydwaith neu gan weithwyr.
https://cloud.google.com/security/gdpr/resource-center/

## HWB (asesiadau cenedlaethol/gwasanaethau ychwanegol)

**Data myfyrwyr a brosesir: enwau disgyblion, grwpiau blwyddyn, data asesu [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR AR GYFER GWASANAETHAU YCHWANEGOL]**

Gwefan dysgu digidol Llywodraeth Cymru yw HWB. Mae'n caniatáu i ddysgwyr gael mynediad at becynnau Microsoft a meddalwedd amrywiol arall. Mae Hwb yn gysylltiedig â Captia SIMS ac mae'n echdynnu gwybodaeth. Rhaid i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael mynediad mewngofnodi diogel i blatfform Hwb oherwydd profion darllen a rhifedd gorfodol. https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/canolfan-cymeradwyo/diogelu-data/hysbysiad-preifatrwydd

## Mathletics (cymorth cwricwlwm)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir Mathletics drwy'r ysgol gyfan. Mae enwau cyntaf yn ymddangos yn gyhoeddus ar y wefan gan fod hyn yn gwneud profiad y myfyrwyr yn fwy perthnasol ac yn cynnig mwy o ymdeimlad o gymuned. Nid yw'r ysgol yn cael ei nodi gyda'r enw cyntaf.
http://static.3plearning.com/mathletics/www/PrivacyPolicy.pdf

## Lexia (cymorth cwricwlwm)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Adnodd darllen yw Lexia a ddefnyddir i gefnogi disgyblion sy'n adeiladu ar gynnydd a datblygiad yn y cwricwlwm a phrofiadau bywyd bob dydd. Mae'r cwmni'n defnyddio mesurau diogelwch safonol, fel mur cadarn, mynediad rheoledig i ddata, a thechnoleg amgryptio i helpu i ddiogelu gwybodaeth defnyddwyr.
http://www.lexialearning.com/privacypolicy/index.html

## Giglets (cymorth cwricwlwm)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae Giglets yn adnodd llythrennedd a ddefnyddir i gefnogi disgyblion gydag adeiladu ar gynnydd a datblygiad yn y cwricwlwm a phrofiadau bywyd bob dydd. Mae'r wybodaeth yn cael ei storio ar weinyddion diogel ac yn defnyddio cwcis i gasglu data ystadegol am weithredoedd a phatrymau pori defnyddwyr. Nid yw hyn yn nodi enwau unrhyw unigolyn.
https://giglets.com/Legal?ShowPage=664&p=Privacy%20&%20Cookie%20Policy

## Purple Mash (cymorth cwricwlwm)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw'r disgybl, enw defnyddiwr, dyddiad geni, dewis, e-bost a rhif ffôn**

Mae Purple Mash yn adnodd addysg a ddefnyddir i gefnogi disgyblion wrth adeiladu ar gynnydd a datblygiad yn y cwricwlwm. Nid yw'r cwmni'n trosglwyddo data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac mae mynediad at wybodaeth wedi'i gyfyngu i'r rhai y mae angen iddynt wybod am y wybodaeth honno am resymau busnes.
https://2simple.com/GDPR/

**Manylion am drosglwyddo i unrhyw wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)**

Efallai y bydd ysgolion Caerffili yn penderfynu defnyddio un neu ragor o'r cymwysiadau isod i ddathlu dysgu disgyblion. Mae'r rhain yn gweithredu y tu allan i'r AEE, ac o ganlyniad, efallai y byddant yn trosglwyddo, storio neu brosesu data personol y tu allan i'r AEE.

## ClassDojo (dyddlyfr dysgu ar-lein)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Defnyddir **ClassDojo** yn yr ysgol i helpu i hyrwyddo ymddygiad da ac i rannu'r hyn a ddysgir drwy ychwanegu lluniau a fideos at bortffolios a grëwyd ar gyfer pob disgybl. Mae hyn yn galluogi'r ysgol a'r disgyblion i rannu straeon dosbarth a chynnydd unigol gyda rhieni yn rheolaidd. Mae ClassDojo yn gwmni Americanaidd sy'n cael ei ardystio o dan fframwaith Amddiffyn Preifatrwydd UE-UDA.
https://www.classdojo.com/en-gb/privacy/#how-y-classdojo-amddiffyn-plant-s-personol-gwybodaeth- | https://www.privacyshield.gov/participant?ID=a2zt0000000GnTlAAK&status=Active

## SeeSaw (dyddlyfr dysgu ar-lein)

**Data myfyrwyr a brosesir: [NODWCH Y MATHAU O DDATA A BROSESIR e.e. enw llawn, dyddiad geni, dosbarth]**

Mae **SeeSaw** yn ddyddlyfr ar-lein diogel lle gall myfyrwyr ddogfennu a myfyrio ar yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu yn y dosbarth. Ni fydd modd adnabod gwaith disgyblion byth wrth ddefnyddio SeeSaw ar wahân i'w ffeil eu hunain a fydd wedi'i labelu â'u henw cyntaf yn unig. Mae gwasanaeth SeeSaw yn cael ei gynnal a'i weithredu yn yr Unol Daleithiau ac yn cydymffurfio â fframwaith amddiffyn preifatrwydd UE-UDA. Maent yn contractio gwasanaethau gwe Amazon i ddarparu gwasanaethau canolfannau data a gwesteion gweinydd.
https://web.seesaw.me/privacy-policy/ |
https://www.privacyshield.gov/participant?ID=a2zt000000001DLAAY&status=Active

## Twitter (dathlu llwyddiant)

**Data myfyriwr a brosesir: enw disgybl, ffotograff/fideo disgybl, dosbarth, ysgol**

Mae **Twitter** yn wefan cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i ddathlu llwyddiant disgyblion, gweithgareddau yn yr ysgol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalyddion. Byddwn bob amser yn ceisio caniatâd cyn cyhoeddi delweddau neu fideos ochr yn ochr ag enw plentyn.
https://twitter.com/en/privacy